



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Pantysgallog

**Pant
Dowlais
Merthyr Tudful
CF48 2AD**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pantysgallog

Enw'r darparwr	YSGOL GYNRADD PANTYSGALLOG
Awdurdod lleol	Merthyr Tudful
Iaith y darparwr	Cyfrwng Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	324
Disgyblion o oed ysgol statudol	201
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	76
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd <i>(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%)</i>	23.8%
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) <i>(Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 20.6%)</i>	11.4%
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	*
Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad penodi'r pennaeth	Mai 2016
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	08-07-2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	
Gwybodaeth ychwanegol	

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru:
fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Pantysgallog yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae staff yn uchelgeisiol ar gyfer eu disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn, a cheir darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau mewn Saesneg a mathemateg, ond nid ydynt bob amser yn cymhwyso'r medrau hyn yn ddigon da yn eu gwaith testun. Mae gan ddisgyblion lais cryf yn yr ysgol, ac maent yn ffynnu yn eu rolau fel anogwyr dysgu. Maent yn cyfrannu'n dda at amrywiaeth o grwpiau a phwyllgorau a gallant roi enghreifftiau o ble mae eu dylanwad wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd ysgol.

Caiff y cwricwlwm ei ddylunio o gwmpas anghenion disgyblion, a thros gyfnod, mae'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gref o'u cymuned leol a'u cymuned ehangach, a'u lle yn y byd. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws mae ymarferwyr yn ei roi ar werthuso a gwella ansawdd yr addysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac fe gaiff ei gynorthwyo'n dda gan uwch arweinwyr eraill. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gofyn cwestiynau heriol ynglŷn â phenderfyniadau pan fydd angen. Ceir synnwyr clir o bawb yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau diddorol nad yw disgyblion efallai'n gallu eu cael y tu allan i'r ysgol. Anogir arloesedd, ond mae arweinwyr bob amser yn cadw golwg ofalus ar effaith newidiadau ac yn gwneud penderfyniadau er budd y disgyblion.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod disgyblion yn dyfnhau ac yn ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A2 Cryfhau dealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad plant i sicrhau bod addysgu bob amser yn gweddu'n briodol i anghenion datblygiadol disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â disgyblion fel anogwyr dysgu a siarad am addysgu, a myfyrio arno, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif werthusiad

Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn y dosbarth meithrin â medrau mewn iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad corfforol sydd ychydig islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn. Er bod y disgyblion ieuengaf yn aml yn ei chael yn anodd gwrando a rhyngweithio'n hyderus ag oedolion ac esbonio eu syniadau, mae eu medrau llefaredd, iaith a chyfathrebu yn datblygu'n gyflym wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion hŷn yn cyfathrebu'n rhwydd ac yn rhugl ag oedolion, ac yn siarad yn frwdfrydig am eu hysgol a'r testunau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn gwrando'n astud ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig wrth ymuno ac ail-ddweud digwyddiadau cyfarwydd. Er enghraifft, wrth ddefnyddio map stori, gall disgyblion alw i gof â mynegiant y stori am Y Tri Mochyn Bach.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth dda am seiniau llythrennau ac yn defnyddio hyn i ddatgodio geiriau newydd ac anghyfarwydd. Ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn darllen â rhuglder a mynegiant digonol i gynnal diddordeb y gwrandawr. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae medrau darllen disgyblion wedi datblygu'n briodol a gall y rhan fwyaf ohonynt ddarllen â mynegiant, yn aml gan ddangos dealltwriaeth dda o'r syniadau allweddol o fewn testunau.

Mae ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Er bod llawysgrifen disgyblion yn amrywio o ran ansawdd, mae sillafu yn briodol i'w hoedran, ar y cyfan, ac mae disgyblion yn aml yn defnyddio dewisiadau da o ran geirfa i greu effaith. Maent yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o arddulliau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan olygu eu gwaith yn aml i wella eu dewisiadau o ran geirfa. Yn gyffredinol, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n gyflym wrth iddynt geisio ysgrifennu mewn genres newydd, ac mae gwelliant amlwg rhwng y gwaith y maent yn ei gwblhau fel prawf cyn uned waith, a'u darn terfynol. Mae disgyblion yn gwerthuso eu cynnydd eu hunain yn ddefnyddiol mewn gwersi Saesneg, ond pan fyddant yn cymhwyso'r medrau ysgrifennu hyn ar draws y cwricwlwm, nid ydynt bob amser yn arddangos yr un trylwyredd ac ansawdd yn eu gwaith. O bryd i'w gilydd, mae athrawon yn disgwyl i ddisgyblion iau wneud tasgau ysgrifennu mwy ffurfiol yn rhy gynnar yn eu datblygiad, ac nid ydynt yn rhoi digon o amser iddynt siarad ac archwilio iaith cyn disgwyl iddynt ddechrau ysgrifennu.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn â'u medrau mathemateg a rhifedd. Yn y dosbarthiadau meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o rif yn briodol. Maent yn adnabod rhifau i bump ac yn cyfrif i ddeg. Trwy ddefnyddio offer ymarferol yn eu chwarae, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol fel 'llawn' a 'gwag', ac erbyn iddynt gyrraedd y dosbarth meithrin hŷn, maent yn esbonio bod 'llawn' yn golygu bod dim mwy yn gallu ffitio mewn cynhwysydd. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn gweithio gydag arian i ddatrys problemau syml, gan gynnwys cyfrifo'r newid o ddwy bunt. Maent yn defnyddio thermometr i fesur tymheredd ac yn datblygu

dealltwriaeth o rifau negyddol yn y cyd-destun hwn. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio pedair rheol rhif yn gymwys, er enghraifft wrth luosi rhifau dau ddigid a thri digid. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda i ddatrys problemau dau a thri cham, gan esbonio'r dulliau y maent yn eu ffafrio, ac yn aml yn ymateb yn dda i heriau a osodir gan athrawon i ymestyn a dyfnhau eu meddwl. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd o ansawdd da i gymhwyso eu medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm ehangach.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau yn Gymraeg yn briodol ar draws yr ysgol ac yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu'r iaith. Mae disgyblion iau yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn Gymraeg, ac yn dechrau gofyn ac ateb cwestiynau syml. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol, mae eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn datblygu i gynnwys patrymau iaith mwy cymhleth, gan gynnwys defnyddio amser y gorffennol. Nid yw disgyblion bob amser yn hyderus wrth ymestyn eu brawddegau a defnyddio ystod ehangach o batrymau iaith. At ei gilydd, mae eu cynnydd wedi cael ei rwystro gan lai o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn ystod y pandemig.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Maent yn creu gwaith celf o ansawdd da ac yn ymfalchïo a chymryd gofal yn eu gwaith darlunio, peintio a chrefft, er enghraifft wrth greu gwaith celf wedi'i seilio ar destun eu sgwrs i'w datblygu yn furlun ysgol gyda chymorth arlunydd graffiti lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio technoleg yn naturiol ac yn rhwydd i gefnogi eu dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion iau yn defnyddio teganau rhaglenadwy i wella eu dealltwriaeth o symud a chyfeiriad mewn mathemateg. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio offer digidol yn fedrus i gydweithio ar ddarnau o waith ar y cyd sy'n berthnasol a difyr. Er enghraifft, wrth greu ap ysgol, mae disgyblion yn creu eu cerddoriaeth, gwaith celf, syniadau am ryseitiau iach a fideos ymarfer corff eu hunain i gefnogi lles ar gyfer teuluoedd yng nghymuned yr ysgol.

Mae medrau corfforol disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn symud yn hyderus o gwmpas yr ystafell ddosbarth dan do ac yn yr awyr agored, ac yn datblygu cydsymud da wrth ddefnyddio offer peintio a darlunio. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu'r medrau hyn ymhellach trwy ystod dda o weithgareddau yn seiliedig ar chwarae a chlybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o les ar draws yr ysgol. Maent yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn awyddus i gymryd rhan yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu darparu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau eithriadol o gadarnhaol at ddysgu, ac mae llawer ohonynt yn dilyn arweiniad athrawon yn llwyddiannus i herio eu hunain a myfyrio ar eu cynnydd. Mae'r diwylliant hwn yn datblygu wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, ac mae wedi gwreiddio'n dda ar gyfer disgyblion hŷn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o barch at ei gilydd, eu hysgol a'u cymuned. Maent yn teimlo eu bod yn cael gofal da ac yn dangos agwedd ofalgar tuag at bobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ymgymryd â'u rôl fel anogwyr lles o ddifri wrth iddynt gynorthwyo disgyblion sy'n gofyn am gymorth.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Trwy'r cyfleoedd niferus i drafod eu teimladau a'u hemosiynau a thrwy wirio lles bob dydd, maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth emosiynol, ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae pob un o'r disgyblion yn falch o Max, eu ci lles. Maent yn mwynhau ei gael mewn gwersi, mynd ag ef am dro a rhoi mwythau iddo. Dywed disgyblion fod Max yn hyrwyddo parch, tawelwch, ffocws a gwydnwch pan fyddant yn gweithio. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys pan fyddant ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod am bwysigrwydd gwarchod eu cyfrineiriau a'u gwybodaeth bersonol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth a'u medrau bywyd yn dda trwy ystod o bwylgorau llais y disgybl, gan gynnwys y cyngor ysgol. Mae llawer ohonynt yn dangos hyder ac eglurder wrth ymgymryd â'r rolau hyn. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau gweithio gyda'u cyfoedion a'r gymuned ehangach i hyrwyddo diogelwch ar y ffordd. Mae Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd yn cyflawni eu rôl â gofal, ac yn annog rhieni a'r gymuned i fod yn ymwybodol o ffyrdd trwy eu hymgyrch 'Be Bright Be Seen'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod ac yn deall bod ganddynt hawliau fel plant. Mae gwaith y Pwyllgor Parchu Hawliau yn helpu sicrhau bod disgyblion yn dysgu am hawliau plant. Mae aelodau'r pwyllgor yn hyrwyddo hawl wahanol bob mis trwy eu gwasanaethau a arweinir gan ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn heriau lles misol yr ysgol. Mae'r rhain yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am ystod o faterion pwysig yn llwyddiannus, fel hyrwyddo iechyd a ffitrwydd trwy 'Her Hunlun Heini Chwefror' ('Fit February Selfie Challenge'). Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd i fyw yn iach. Mae ganddynt wybodaeth addas am bwysigrwydd bwyta byrbryd iach a sut i wneud dewisiadau iach o ran diet.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ffynnu yn eu rolau fel anogwyr dysgu, a thrwy'r rhain maent yn datblygu medrau cydweithio a chyfathrebu cryf. Maent yn defnyddio eu meysydd arbenigedd yn dda i gefnogi dysgu a lles eu cyfoedion. Mae hyn yn amrywio o gynorthwyo eu cyd-ddisgyblion â'u medrau digidol i ddarparu cymorth lles.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu dysgu. Maent yn disgrifio'n glir sut maent yn cael dweud eu dweud ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o beth maent yn hoffi ei ddysgu a phwy maent yn ei edmygu yn y byd. Mae'r wybodaeth hon yn amlwg ym mhroffiliau un dudalen unigol disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo eu bod wedi eu grymuso, yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwranddo arnynt ynglŷn â'r hyn maen nhw ei eisiau a'i angen.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i greu cwricwlwm difyr sy'n herio disgyblion, ac yn ennyn eu brwdfrydedd. Maent yn cynllunio'n feddylgar ar gyfer profiadau dysgu sy'n adlewyrchu ethos yr ysgol, ac yn annog pob un o'r disgyblion i ehangu eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a bod yn uchelgeisiol ar gyfer eu dyfodol.

Mae athrawon yn meddwl yn ofalus am bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, a sut y gellir adlewyrchu'r rhain wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm. O ganlyniad, mae gweithgareddau'n cefnogi datblygiad disgyblion tuag at y dyheadau ehangach hyn yn bwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn trafod materion moesegol fel cynhesu bydeang ac yn astudio'r modd y mae ffigurau cyhoeddus yn codi proffil y materion hyn ledled y byd. Maent yn meddwl yn ofalus am sut y gallant wneud gwahaniaeth yn eu hardal leol. Mae ymarferwyr yn dechrau datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ar draws y cwricwlwm newydd, a sut y gellir cynllunio gwybodaeth a medrau ar gyfer eu disgyblion yn gydlynus ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn awyddus i ymgorffori cysyniadau perthyn a dylanwadu yng nghynlluniau'r cwricwlwm trwy ddefnyddio digwyddiadau'r gorffennol i helpu disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o hanes cyfoethog y dref y maent yn byw ynddi. Mae ymarferwyr yn meddwl yn ofalus am sut i wau cyfleoedd ar gyfer ymweliadau a theithiau i'w cynllunio i ehangu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion hyn yn ymweld â chlwb rygbi rhanbarthol i gefnogi eu gwaith ar ap lles digidol, ac yn gwersylla a cherdded yn yr ardal leol i ddarganfod rhyfeddod y dirwedd naturiol o'u cwmpas. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i orffennol eu cymuned, yn ogystal â'i phresennol.

Mae gan bob un o'r staff berthnasoedd cynnes gyda'u disgyblion. Maent yn darparu ethos cynhwysol lle mae pob disgybl yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fregus neu sydd ag anghenion ychwanegol, wedi eu cymell i ddysgu. Mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel o ymddygiad. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn briodol, ac mae hyn yn creu amgylchedd tawel, gweithgar lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn am gymorth.

Mae mwyafrif yr athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Gymraeg ar lefel briodol i fodelu'r iaith ar gyfer disgyblion. Maent yn gwella darpariaeth ar gyfer y Gymraeg ar draws yr ysgol ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i gyfoethogi dysgu disgyblion yn y Gymraeg trwy eisteddfod flynyddol y clwstwr a thrwy waith partneriaeth gydag adran Gymraeg yr ysgol uwchradd leol.

Mae darpariaeth ar gyfer chwarae'n annibynnol yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn a'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau iau eraill yn briodol, ar y cyfan. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael iddynt yn annibynnol yn barhaus. Ar adegau, nid yw athrawon yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, sy'n arwain at ymagwedd rhy ffurfiol at addysgu medrau, fel ysgrifennu, cyn i ddisgyblion fod yn barod yn ddatblygiadol.

Mae darpariaeth ddysgu yn yr awyr agored yn addas ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynnyddoedd 1 a 2 yn defnyddio'r gegin fwd i greu eu 'bwyd' eu

hunain. Gall disgyblion hŷn fanteisio ar amrywiaeth eang o ddarpariaeth chwarae yn yr awyr agored fel tennis bwrdd, pêl-fasged a weiren wib. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol yn briodol.

Yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau, mae athrawon yn modelu dysgu'n dda. Maent yn rhoi enghreifftiau defnyddiol i ddisgyblion o sut beth yw darn da o waith, ac yn aml, caiff y rhain eu harddangos ar waliau dysgu'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio holi'n effeithiol i alw dysgu blaenorol i gof, gwirio dealltwriaeth a symud y dysgu ymlaen. Maent yn rhoi arweiniad defnyddiol i ddisgyblion ar gyfer llwyddo. Mae llawer o ddisgyblion yn dilyn yr arweiniad hwn i gefnogi eu dysgu yn briodol a herio eu hunain i roi cynnig ar waith sy'n fwy anodd.

Mae'r ymagwedd ysgol gyfan at asesu yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn rhoi adborth llafar gwerth chweil ym mhob sefyllfa ddysgu. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn dod yn fwy ymwybodol o'r meini prawf llwyddiant ar gyfer gwersi ac yn dechrau cymryd rheolaeth o'u dysgu. Er enghraifft, gan ddefnyddio dewis o dri gweithgaredd cam dysgu mewn amser her, dealltwriaeth a chynnydd, mae disgyblion yn dewis lefel briodol o waith, yn myfyrio ar eu dysgu, ac yn herio eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u dysgu. Mae disgyblion yn ymwybodol o ddefnydd athrawon o sbardunau mewn marcio, ond nid yw adborth ysgrifenedig yn rhoi dealltwriaeth glir i ddisgyblion o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu yn gyson.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i rannu gwybodaeth gyda rhieni trwy gyfarfodydd ymgynghori rhwng rhieni ac athrawon, a thrwy ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae adroddiadau'r ysgol yn darparu'r camau nesaf neu dargedau ar gyfer gwella, ond nid yw'r rhain bob amser yn fuddiol o ran helpu rhieni i ddeall beth yn union mae angen i'w plentyn ei wneud i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad i ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o ofal a pharch at ei gilydd, sydd yn ei dro yn cynorthwyo i greu cymuned ddysgu gynhwysol. Caiff gwerthoedd yr ysgol, sef gonestrwydd, hapusrwydd, cydraddoldeb, cyfeillgarwch, annibyniaeth a her, eu deall yn dda gan y disgyblion hŷn, a chânt ddylanwad cadarnhaol ar agweddau ac ymddygiadau disgyblion. Ceir pwyslais cryf ar gynhwysiant a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau dynol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwerthfawrogi cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder yn dda, a sut mae'r cysyniadau hyn yn ymwneud â'u bywydau o ddydd i ddydd.

Mae llais y disgybl wedi ei ddatblygu'n dda ar draws yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth. Mae staff ac arweinwyr yn gwrando'n ofalus ar farn grwpiau disgyblion ac maent wedi bod yn llwyddiannus yn datblygu agweddau ar waith yr ysgol, gan gynnwys amgylchedd yr ysgol a chynorthwyo disgyblion yn eu dealltwriaeth o hawliau plant. Mae gan ddisgyblion rôl bwysig mewn dylanwadu ar eu dysgu eu hunain, a gofynnir iddynt feddwl yn rheolaidd am agweddau ar destunau yr hoffent ymchwilio iddynt ymhellach. Cofnodir syniadau disgyblion ar 'Fyrddau Llais y Disgybl, Dewis y Disgybl' ('Pupil Voice, Pupil Choice Boards') ym mhob ystafell

ddosbarth. Anogir disgyblion i feddwl am holl feysydd y cwricwlwm wrth ystyried beth yr hoffent ei astudio ymhellach.

Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo hunan-barch pob un o'i disgyblion. Er enghraifft, mae pob disgybl yn anogwr dysgu a rhoddir cyfrifoldeb iddynt helpu disgyblion eraill. Mae anogwyr dysgu yn cynnwys disgyblion yn cymryd yr awenau i ddangos i ddisgyblion eraill sut i glymu eu careiau, bod yn garedig, defnyddio technoleg gwybodaeth neu ddysgu eu tablau. Mae'r ymagwedd hon yn hyrwyddo ysbryd tîm yn y dosbarth, ac mae disgyblion yn teimlo synnwyr o ddiben uwchlaw eu dysgu a'u cynnydd eu hunain.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Ceir systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion, ac mae trefniadau ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion disgyblion penodol yn drylwyr. Pan fo'n briodol, mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau arbenigol allanol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn helpu athrawon a staff cymorth i deilwra darpariaeth i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion trwy weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth. Mae'r ysgol wedi cynyddu ei darpariaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion. Er enghraifft, ers y pandemig, mae mwy o staff wedi cael eu hyfforddi i gynorthwyo disgyblion â'u lles emosiynol, ac yn darparu cyfleoedd fel mater o drefn i blant siarad â staff pan fydd angen.

Mae sesiynau addysg gorfforol rheolaidd ac ystod eang o chwaraeon allgyrsiol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fwynhau manteision ymarfer corff. Ar hyn o bryd, mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn prosiect digidol gyda thîm rygbi rhanbarthol i feithrin dyheadau ar gyfer cael ffyrdd iach o fyw trwy greu ap. Crëwyd hwn gan ddisgyblion ar gyfer disgyblion, ac mae'n dangos amrywiaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd a lles.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn briodol ac yn mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn dda. Mae'r systemau i gefnogi a herio presenoldeb isel yn gadarn ac wedi arwain at lefelau presenoldeb gwell.

Ceir diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar hyrwyddo lles disgyblion, gan sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer dysgu, a bod staff a disgyblion yn rhannu ymdeimlad o uchelgais ar gyfer yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae'n arwain trwy esiampl ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel o bob un o'r staff.

Mae uwch arweinwyr yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda, ac mae'r uwch dîm rheoli yn cydweithio'n strategol i yrru gwelliannau mewn meysydd a nodwyd. Ceir diwylliant cryf o rannu rolau arwain ymhlith staff ar bob lefel, ac mae'r pennaeth yn grymuso staff i fod yn arloesol. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi cael eu hannog i ymgymryd â phrosiectau ymchwil i brofi strategaethau y maent yn meddwl y byddant yn gwella eu haddysgu a deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod

effeithiolrwydd y strategaethau hyn ar wella cynnydd disgyblion yn cael ei werthuso'n drylwyr cyn i arweinwyr eu cynnwys fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan at ddysgu. Er enghraifft, gofynnodd athrawes newydd gymhwyso pe bai'n cael treialu dull her, dealltwriaeth a chynnydd gyda'i dosbarth. Ar ôl gweld bod y dull hwn yn effeithiol, gofynnwyd iddi wedyn ymgymryd â rôl arweiniol mewn lledaenu'r dull hwn mewn dosbarthiadau eraill.

Mae diwylliant cryf o siarad am ddulliau addysgu yn datblygu yn yr ysgol. Mae athrawon yn gweithio mewn grwpiau i wella eu harferion ystafell ddosbarth mewn ffordd gefnogol, a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae arweinwyr yn annog staff i drafod a myfyrio ar eu dulliau addysgu ac yn gofyn am gyngor am ffyrdd i wella. Yn gysylltiedig â hyn, mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i athrawon newid eu cyfrifoldeb dosbarth yn aml i ddatblygu eu medrau ar draws yr ysgol gyfan. Pan fydd hyn yn gweithio'n effeithiol, mae gan athrawon fentor mewn dosbarth cyfochrog sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn addysgu'r grŵp oedran hwn. Yn yr achosion prin ble mae hyn yn llai llwyddiannus, nid yw athrawon yn cael digon o amser i atgyfnerthu eu gwybodaeth am y cam datblygu na'r dulliau addysgu sydd eu hangen ar gyfer grwpiau oedran penodol. Yn ychwanegol, nid ydynt bob amser yn cael digon o ddysgu proffesiynol ynglŷn â hyn cyn symud dosbarth.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn gadarn ac wedi'u seilio'n gadarn ar dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn gosod blaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella yn effeithiol, yn unol â'u dadansoddiad o ystod eang o dystiolaeth. Mae'r diwylliant o werthuso'r holl fentrau yn gadarn wedi'i wreiddio yn yr ysgol.

Mae rheolaeth ariannol yn effeithiol, ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella. Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn briodol i gynorthwyo disgyblion bregus. Er enghraifft, mae wedi ariannu mwy o ymarferwyr i gael eu hyfforddi i gefnogi lles emosiynol disgyblion.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn briodol. Mae targedau'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ac yn sicrhau ymagwedd gydweithredol at welliant ymhlith staff. Mae arlwy cynhwysfawr ar gyfer dysgu proffesiynol, a diwylliant cadarnhaol i hyrwyddo hyn ar draws yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn awyddus i chwilio am gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, a manteisio arnynt, a cheir llawer o enghreifftiau lle mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion.

Mae'r pennaeth yn adnabod y gymuned leol yn dda. Mae staff yn ymwybodol iawn o gost ymweliadau ac offer, a'r effaith y gall hyn ei chael ar deuluoedd. Maent yn ceisio lliniaru hyn trwy roi cymhorthdal ar gyfer ymweliadau ac offer ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn ariannu blaser ar gyfer pob disgybl ym Mlwyddyn 5 a 6 i ddarparu ymdeimlad o berthyn a chydlyniad ar gyfer y disgyblion hyn. Yn ystod y pandemig, bu staff yn gweithio gyda siop leol i becynnu a dosbarthu pecynnau bwyd i helpu teuluoedd oedd angen cymorth. Mae cyfathrebu a pherthnasoedd â rhieni yn gryf, a dywedodd rhieni wrthym ni eu bod yn hoff iawn o'r adborth y maent yn ei gael am ddigwyddiadau'r ysgol trwy gyfryngau cymdeithasol.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Pantysgallog
Mawrth 2022

Mae llywodraethwyr yn wybodus iawn am waith yr ysgol, ac yn darparu lefel addas o her i uwch arweinwyr yn ogystal â darparu cymorth effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/05/2022